

# CANLLAW I RAI SY'N NEWYDD I RALIŌ

YN NEWYDD I'R WRC? OS FELLY,  
 MAE DAVID EVANS YMA I HELPU...



Croeso. Rydych wedi cyrraedd. Dyma raliŌ. Dyma Rali Cymru GB Dayinsure. Byddwch yn barod am yr ymosodiad mwyaf syfrdanol ar eich synhwyrau. Mae hynny'n cymryd eich bod yn darllen hwn yn pwyso yn erbyn coeden yn Nyfi, yn lladd amser wrth i chi aros am bencampwr byd,

380 o geffylau a llawer o sŵn.

Os ydych yn ei ddarllen yn eich hoff gadair freichiau ar nos Sadwrn yn y dyfodol yn gobeithio osgoi Strictly, rydych am gael eich siomi. Dim ond dawnsio ydy dawnsio. Ond mae raliŌ'n ddawnsio ar 100 milltir yr awr, ar eira, mwd, rhew, graean ac asffalt.

Ond beth ydy raliŌ mewn gwirionedd? I'r rheini ohonoch sydd wedi arfer mwynhau'ch rasio moduron ar fin trac, rydych wedi mentro i fydysawd cyfochrog gwahanol iawn – er yr hoffwn feddwl fod hwnnw'n fydysawd cyfochrog llawer iawn gwell.

Y peth cyntaf sydd angen i chi ei wybod ydy y byddwch yn gweld un car ar y tro ar y gornel o'ch blaen. Fe sylwch hefyd, 'does dim dŵr ffo, dim ARMCO a dim trapiâu graean. Dim ond graean. Mae raliŌ'n rasio moduron mewn amgylchedd y gallwn ymdeimlo ag ef, mewn ceir yr ydym yn eu hadnabod fel y rhai yr ydym yn eu prynu bob tro yr ydym wedi gorffen talu am yr un diwetha'.

Mae rowndiau'r Bencampwriaeth Byd - y mae Rali Cymru GB Dayinsure yr un olaf ond un ohonynt y tymor hwn - yn cychwyn ar nos lau ac yn gorffen amser cinio ddydd Sul. Bydd rali eleni'n cychwyn gyda man cyfarfod cwbl newydd yn Nhir Prince, yn union y tu allan i Dywyn ar arfordir gogledd Cymru ble bydd y ceir a'r criwiau'n mynd yn erbyn y cloc ar drac hollol newydd.

Y bore wedyn, mae'r ceir yn gadael eu mannau gwasanaethau ym mhentref Rali Glannau Dyfrdwy. Gwasanaeth ydy ble maen nhw'n cael eu trin gan dîm o fecanyddion sy'n gallu gwneud llwythi o bethau fel newid gerbocsys neu hongiad blaen mewn dim o dro a heb unrhyw anfonebau na chamddefnydd ar waled y gyrrwr. Maen nhw'n gwneud y gwaith mwy dinod yma hefyd, fel glanhau'r ffenestr flaen, llenwi hylif y golchwr yn llawn dop a gwneud yn siŵr fod gan y criw un neu ddau o fariau egni neu fananas ym mhocedi'r drysau.

Y tu allan i'r gwasanaethau, mae'r ceir yn cael eu gyrru ar hyd adrannau cyswllt - rhwng y gwasanaethau a'r cymalau cystadleuol - yn unol â deddfau traffig pob gwlad unigol. Felly, ble mae'r terfyn cyflymder yn 30mya yn y Drenewydd i chi a minnau, mae'n union yr un fath iddyn nhw. Os byddan nhw'n torri'r gyfraith ar y ffordd, maen nhw'n cael eu trin yn union fel chi a fi.



Mae gan Rali Cymru GB Dayinsure 21 cymal yn 2017 wedi'u hymestyn dros ddydd lau, dydd Gwener, dydd Sadwrn a dydd Sul. Cymal ydy'r enw am y ffordd rhwng cychwyniad y cymal a'i ddarfod ar wib.

Yr amser y mae'n ei gymryd i griw fynd o'r cychwyn i'r terfyn sy'n penderfynu pwy sydd gyflymaf yn y cymal hwnnw tra bydd yr amser cronedig o bob un o'r 21 cymal yn penderfynu enillydd y rali.

Mae cymalau yn y WRC yn cael eu rhedeg ar bob wyneb ac i bob hyd, ond yng Nghymru eleni maen nhw'n amrywio o'r prawf parcdir asffalt 1.8km yng Nghastell Cholmondeley ddydd Sadwrn i'r prawf 35km llawer mwy nodweddiadol yn Hafren y peth cyntaf fore dydd Gwener.

Yn y cymalau hyn, mae'r nod i'r criw yn syml, mynd mor gyflym ag sydd o fewn gallu dyn ac yn fecanyddol bosib heb falu'r car, ei droi yn ei unfan neu i dorri. A dyna'r her, dyna'r bachyn - mae'r ras yn erbyn y cloc. Y cyflymaf sy'n ennill.

Fe allem fynd yn fwy technegol yma, ond beth am inni gadw hynny at ddiwrnod arall. Am rŵan, rhowch y rhaglen i lawr ac aros i'ch byd a'r coedwigoedd hyn gael eu siglo.

## RHESTR TERMAU

### CYDYRRWR

Yn delio gyda'r amseriad a'r gwaith papur yn y car. A siarad yn fras, yn dweud wrth y gyrrwr ble i fynd, pa mor gyflym a phryd.

### DARFOD AR WIB

Dyma ddiwedd adran amseredig y cymal arbennig, ei ffiniau wedi'u dangos gan faner sgwarog. Yn cael ei alw'n 'ar wib' am fod y pelydryn amseru'n cael ei dorri ar gyflymder.

### INTERCOM

Y meic a'r clustffon sydd wedi'u gosod y tu mewn i helmedau'r gyrrwr a'r cydyrrwr, gan ganiatáu iddyn nhw glywed ei gilydd dros sŵn yr injan.

### DTA

Dros y Terfyn Amser. Rhoddir amser penodedig i griwiau fynd o reolfan i reolfan ac os, am ba bynnag, reswm, nad ydyn nhw'n cyrraedd y rheolfan nesaf yn yr amser penodedig hwnnw yna ystyrir eu bod 'DTA' ac maen nhw'n ymddeol am y diwrnod.

### NODIADAU CYFLYMDER

Set o nodiadau sy'n disgrifio natur y cymal arbennig a gaiff eu harddywedyd gan y gyrrwr wrth y cydyrrwr yn ystod y rhagchwiliad, ac sy'n cael eu darllen yn ôl i'r gyrrwr wedyn i ddweud wrthyn nhw'n union pa gorneli, copaon a neidiau sy'n dod pan fydd y criw'n rhedeg ar gyflymder cystadleuol.

### CYMAL PŴER

Dyma gymal olaf pob rali fel arfer, ble mae tri phwynt bonws yn cael eu rhoi i'r criw cyflymaf, dau i'r ail ac un i'r trydydd cyflymaf. Mae'r cymal yn cael ei ddangos yn fyw ar deledu byd-eang hefyd.

### 'RALI2'

Dyma'r rheoliad sy'n caniatáu i griw ddychwelyd i'r dosbarthiad cyffredinol er iddyn nhw ymddeol o rali a pheidio â chwblhau pob un o'r cymalau arbennig y diwrnod blaenorol.

Mae cosb amser o bum munud yn cael ei osod ar y cystadleuydd ar gyfer pob cymal y maen nhw'n methu ei gwblhau.

### YMDDEOL

'Dyw hyn ddim yn golygu rhoi'r gorau i weithio neu gymryd pensiwn. Mae'n golygu bod criw heb gyrraedd y rheolfan nesaf am eu bod wedi mynd oddi ar y ffordd, wedi dioddef problem fecanyddol neu wedi mynd ar goll. Ar yr amod bod adeiladwaith diogelwch y car heb ei falu, gellir ailgynnig y car y diwrnod canlynol dan reoliadau 'Rali2'.

### PARTH GOSOD TEIARS PELL

Dyma beth sy'n digwydd yn y Drenewydd ddydd Gwener. Mae'r un fath â Glannau Dyfrdwy, ond ar raddfa llawer llai - mae'n bell o'r prif wasanaethau (dyna pam yr enw). Mae timau'n cael gosod teiars newydd ar y car a gweithio ar y ceir - ond dim ond gan ddefnyddio darnau ac offer sy'n cael eu cario yn y car ei hun.

### LLYFR FFORDD

Dyma'r llyfr sy'n arwain cydyrrwyr o gychwyn i ddiwedd rali. Mae pob cyffordd ar y ffordd wedi'i dangos gan gynnig cyfarwyddiadau clir ar ba ffordd i fynd.

### RHAGCHWILIAD

Mae'r criwiau'n cael gyrru trwy bob un o'r cymalau arbennig ddwywaith cyn y rali er mwyn gwneud y nodiadau cyflymder holl bwysig sy'n cael eu defnyddio i ddisgrifio'r ffordd. Tra bydd y gyrrwr yn cymryd y cymalau ar eu cyflymaf, rhaid gwneud y rhagchwiliad ar ddim mwy na 70 cilometr yr awr (43mya) ac mae dyfais olrhain wedi'i gosod ar y ceir i fonitro cyflymder a lleoliad.

### ARCHWILIO

Mae pob car yn cael ei archwilio cyn y rali i wneud yn siŵr ei fod yn cydymffurfio â gofynion diogelwch llym yr FIA. Mae'n ymchwiliad hefyd i wneud yn siŵr fod manylion technegol y car yn gyson â'r categori y mae'n cystadlu ynnddo. Ac nid y ceir yn unig, bydd oferôls a helmedau damwain y criwiau'n cael eu harchwilio hefyd.

### PENTREF Y RALI

Dyma beth sydd yng Nglannau Dyfrdwy - yn iaith rasio cylchffordd: y padog a'r pitiau. Mae'r ceir yn mynd a dod o'u mannau gwasanaethau ym Mhentref y Rali bob dydd. Maen nhw'n cael eu paratoi a'u hatgyweirio mewn sesiwn gwasanaeth byr yn y bore a sesiwn hirach fin nos.

### CYMALAU

Dyma ble mae'r rali'n cael ei hennill a'i cholli. Mae'r criwiau'n cael eu hamseru i'r degfed ran o eliad rhwng y dechrau a'r diwedd ac mae'r amser cronedig o bob un o'r cymalau yn penderfynu'r dosbarthiad. Caiff rowndiau'r WRC eu rhedeg ar darnau, eira a graean - graean ydy Rali Cymru GB gan mwyaf.

### RHEOLFANNAU

Mae gan ddechrau a therfyn pob cymal a pharc gwasanaethau reolfan a rhaid i'r criwiau fynd i mewn i'r reolfan ar yr union funud iawn i osgoi cosb.

### WRC2

Dyma'r prif ddsbarth bwydo i'r WRC. Dyma'r hyn mewn raliŌ sy'n cyfateb i GP2. Mae'r ceir yn yriant pedair olwyn, ond gallant fod yn ddau litr di-dyrbo (S2000) neu'n 1.6 gyda thyrbo (yn cael ei alw'n R5 neu RRC). At ei gilydd mae'r ceir hyn tua 40bhp i lawr ar Geir Rali'r Byd - ond yr un mor drawiadol. Mae criwiau sy'n cystadlu yn y WRC2 yn sgorio ar chwech o'u saith rali gyntaf.

### WRC3

Yn cael ei redeg ar gyfer ceir gyriant dwy olwyn gydag injans hyd at ddau litr di-dyrbo neu 1.6-litr gyda thyrbo. Mae gyrrwyr yn gallu sgorio ar chwech o'u saith rownd gyntaf.

### CAR RALI BYD

Ceir Fformiwla Un y fforestydd. Yn cael eu pweru gan injans tyrbo 1.6-litr gyda gyriant pedair olwyn, dyma'r ceir cyflymaf yn y dosbarth uchaf. Bydd y fuddugoliaeth derfynol yn mynd i un o'r rhain.